**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac yn rhithiol drwy Zoom ar ddydd Iau, 17 Gorffennaf 2025**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Gwener, 18 Gorffennaf 2025. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Gwener, 25 Gorffennaf 2025. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Llun, 28 Goffennaf 2025.

**Presennol**: Y Cynghorwyr Robin Williams (Dirprwy Arweinydd) (Cadeirydd), Neville Evans, Carwyn Jones, Dyfed Wyn Jones, Alun Roberts a Dafydd Roberts

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Kenneth Hughes a Derek Owen

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Gary Pritchard (Arweinydd) a Nicola Roberts

(10:00 y. b. tan 11:10 y. b.)

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 4 **Cofnodion**<br>Amherthnasol |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2025 fel rhai cywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Amherthnasol** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Amherthnasol** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 5 **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i** |

| | |
|---|---|
| | **diweddaru am y cyfnod Awst 2025 i Mawrth 2026 gyda'r newidiadau a nodwyd yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaen gynllunio** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel y nodir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Alldro Cyfalaf 2024/25**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau).Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Nodi'r sefyllfa alldro drafft ar gyfer rhaglen gyfalaf 2024/25 (yn amodol ar archwiliad).**<br>• **Cymeradwyo ychwanegu £3.074m i gyllideb 2024/25 o ganlyniad i gyllideb ychwanegol a dderbyniwyd yn ystod y chwarter terfynol, sy'n dod â chyllideb derfynol 2024/25 i £78.247m.**<br>• **Cymeradwyo dwyn ymlaen £2.529m o wariant a'r cyllid cysylltiedig i gyllideb 2025/26. Y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2025/26 yw £46.823m.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro perfformiad y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2024/25** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel y nodir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Alldro y Cyfrif Refeniw Tai 2024/25**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)Swyddog |

| | |
|---|---|
| | Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd nodi'r sefyllfa mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer 2024/25.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro perfformiad y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer 2024/25** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel y nodir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Adolygiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2024/25**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd nodi'r adroddiad ar Adolygiad o Reoli'r Trysorlys am 2024/25 ac argymell ei fod yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 25 Medi 2025.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn cydymffurfio gyda gofynion y Cyfansoddiad, Deddf Llywodraeth Leol 2003 a Chodau Ymarfer perthnasol CIPFA** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel y nodir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol. Mae'r adroddiad ar adolygiad blynyddol o Reoli'r Trysorlys yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor Llawn** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 Cyfrifon Terfynol Drafft 2024/25 a defnydd o Gronfeydd Wrth Gefn a Balansau**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |

| | |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Nodi'r prif ddatganiadau ariannol drafft (heb eu harchwilio) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25. Cyhoeddir y Datganiad Cyfrifon Drafft llawn ar gyfer 2024/25 ar y ddolen a ganlyn - https://www.ynysmon.llyw.cymru/documents/Dogfennau-Cy/Cyllid/Datganiad-or-cyfrifon/2024-i-2025/datganiad-o-cyfrifon-2024-i-2025-drafft.pdf?nocache=1**<br>• **Nodi sefyllfa balansau cyffredinol y Cyngor, sef £15.705m.**<br>• **Nodi balans y cronfeydd wrth gefn clustnodedig, sef £18.295m, a chymeradwyo creu £1.958m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig newydd.**<br>• **Cymeradwyo yn ffurfiol, trosglwyddo £0.094m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig yn ôl i Falansau Cyffredinol y Cyngor.**<br>• **Nodi balans cronfeydd wrth gefn ysgolion, sef £5.074m.**<br>• **Nodi balans cronfa wrth gefn y CRT, sef £7.978m.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Pennu sut mae arian wrth gefn a balansau yn cael eu defnyddio** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel y nodir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 Asesiad Panel Perfformiad**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cytuno'r materion i'r Panel eu hystyried fel a nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad, sef –**<br><br>• **Trefniadau cyflawni amcanion strategol Cynllun y Cyngor – a yw trefniadau'r** |

| | |
|---|---|
| | **Cyngor yn rhoi sicrwydd ei fod yn cyflawni Cynllun y Cyngor yn effeithlon, ac**<br>• **A yw'r Cyngor yn cyd-weithio yn effeithiol gyda chymunedau a phartneriaid i gyflawni amcanion strategol Cynllun y Cyngor.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn cydymffurfio gyda'r gofyniad yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2015** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel y nodir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 Cau Allan y Wasg a'r Cyhoedd**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd o dan Adran (100)(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, i wahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y golygai ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y caiff ei diffinio yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac ym Mhrawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Mae'r Achos Busnes Llawn yn cynnwys gwybdaeth masnachol sensitif am faterion ariannol a thendr ynghylch y prosiect allai niweidio'r Cyngor pan mae'n dyfarnu contractau yn y dyfodol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Amherthnasol** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Amherthnasol** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 Cynllun Gofal Ychwanegol a Chartref Gofal Preswyl Aethwy – Achos Busnes Llawn (ABLl)**<br>Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd -**<br><br>• **Cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn (ABLl) ar gyfer cynllun Gofal Ychwanegol/Cartref Gofal Preswyl Aethwy.**<br>• **Cymeradwyo cyflwyno'r ABLl i Lywodraeth Cymru.**<br>• **Dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol mewn ymgynghoriad â'r Dirprwy Arweinydd a Deilydd Portffolio Cyllid a Thai, y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro i ddiwygio a/neu ddiweddaru'r ABLl fel y bo angen – os nad yw'r newidiadau'n arwain at newidiadau o bwys (yn nhermau polisi, egwyddorion, cyfraniad ariannol [ar wahân i gyfraniad CRT – os yw'r prosiect yn elwa ar NPV cadarnhaol], risgiau, a niwed i drydydd parti.**<br>• **Ymrwymo i ariannu gofyniad y Cyngor o ran cyfalaf – tuag at gost y prosiect – drwy'r Cyfrif Refeniw Tai.**<br><br>**Bydd gwireddu'r cynllun yn amodol ar benderfyniad y Pwyllgor Cynllunio a chaniatadau statudol eraill a fynnir.* |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I symud ymlaen gyda'r ymrwymiad yng Nghynllun y Cyngor i ddatblygu cyfleuster gofal ychwanegol ym Mhorthaethwy a chyfrannu tuag at gyflawni'r amcan strategol o sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle yn gartref.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel y nodir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |